# PWYLLGOR SAFONAU

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 22 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma. [Insert link]

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd); L. Tinsley Is-Gadeirydd); R. Alexander, P. Hallett a G. Watkins (Aelodau Annibynnol), Cynghorwyr J.E. Charles a C.P. Franks.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R.M. Birch.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Derbyniwyd y datganiadau canlynol -

Manteisiodd y Cynghorydd J.E Charles ar y cyfle i ymddiheuro i'r Pwyllgor ac i ddatgan buddiant yn ôl-weithredol mewn perthynas â'i chais am oddefeb yn ystod Agenda 6 ar agenda cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022.

Datganodd y Cynghorydd Franks fuddiant mewn perthynas ag Atodiad 1 eitem 3 yr Agenda, o ystyried ei gais a oedd wedi'i gynnwys ymhlith y ceisiadau ail-lunio, a hefyd mewn perthynas â'i geisiadau mewn perthynas ag Atodiad 3 eitem 3 yr Agenda. Nid oedd y Cynghorydd Franks yn bresennol yn y cyfarfod pan oedd y ceisiadau yn ymwneud ag Atodiad 1 yr adroddiad a'i geisiadau yn Atodiad 3 yn cael eu hystyried.

Datganodd Mr G. Watkins gysylltiad personol agos o ran cais y Cynghorydd Asbrey ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod pan oedd y cais yn cael ei ystyried.

EITEM AGENDA 3. CAIS AM GANIATÂD (ASM/PGCD) -

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y goddefebau fel y'u nodir yn yr atodlen isod yn cael eu caniatáu hyd at ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf:

| Aelod sy'n Gofyn am Oddefeb | Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 - y caniateir goddefebau oddi tanynt ac y gwnaed cais amdanynt oddi tanynt | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd A. Asbrey | (a), (c) a (ch) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys |
| Y Cynghorydd M. Cowpe | (a), (c) a (ch) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys |
| Y Cynghorydd V.P. Driscoll | (a), (c) a (ch) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys |
| Y Cynghorydd C.P. Franks | (a), (c) a (ch) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys |
| Y Cynghorydd J. Lynch-Wilson | (a), (c) a (ch) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng |

| | | |
|---|---|---|
| | | nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Sain Tathan |
| Y Cynghorydd P. Carreyett | (a) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandochau ar faterion sy’n ymwneud â Sefydliad Coffa Rhyfel Llandochau fel Prif Ymddiriedolwr yr elusen |
| Y Cynghorydd M Edwards | (a) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandochau ar faterion sy’n ymwneud â Sefydliad Coffa Rhyfel Llandochau fel Prif Ymddiriedolwr yr elusen |
| Y Cynghorydd D. Mears | (a) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandochau ar faterion sy’n ymwneud â Sefydliad Coffa Rhyfel Llandochau fel Prif Ymddiriedolwr yr elusen |
| Y Cynghorydd Dr. M. Misra | (a) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandochau ar faterion sy’n ymwneud â Sefydliad Coffa Rhyfel Llandochau fel Prif Ymddiriedolwr yr elusen |
| Y Cynghorydd V.P. Driscoll | (ch) a (dd) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, lle mae materion yn cael eu codi mewn perthynas â Heol Holltwn, y Barri yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. |
| Y Cynghorydd C.P. Franks | (ch), (dd), (e) ac (f) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy'n ymwneud â Llyfrgell a Chanolfan Gweithgareddau Dinas Powys (gan gynnwys ceisiadau am grantiau) pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys |
| Y Cynghorydd C.P. Franks | (ch), (dd), (e) ac (f) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy'n ymwneud â Dinas Powys Voluntary |

| | | |
|---|---|---|
| | | Concern (gan gynnwys ceisiadau am grantiau) pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys |
| Y Cynghorydd Dr I.J. Johnson; | (c), (ch), (dd) ac (e) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â chelfyddydau a digwyddiadau ym Mro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri |
| Y Cynghorydd Dr I.J. Johnson; | (c), (ch), (dd) ac (e) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â chyfleusterau chwaraeon ym Mro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri |
| Y Cynghorydd Dr I.J. Johnson; | (c), (ch) a (dd) | Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â chanolfannau cymunedol pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri |
| Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby | (ch) a (dd) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy’n ymwneud â gwasanaethau Teleofal a Phecyn Gofal yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. |
| Y Cynghorydd D. Willmott | (i) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Sain Tathan ar faterion sy’n ymwneud â Hyb Cymunedol a Llyfrgell Sant Tathan (gan gynnwys ceisiadau am grantiau) |
| Y Cynghorydd M.R. Wilson | (ch), (dd), (e) ac (ff) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy’n ymwneud â Fforwm Masnach Deg Penarth yng Nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. |
| Y Cynghorydd M.R. Wilson | (ch), (dd), (e) ac (ff) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy’n ymwneud â |

| | | |
|---|---|---|
| | | Neuadd Glyndwr yng Nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. |
| Y Cynghorydd M.R. Wilson | (ch), (dd), (e) ac (ff) | Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy'n ymwneud â Choleg Caerdydd a'r Fro yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. |

(2) Rhoi gwybod i'r Cynghorydd Cowpe, mewn perthynas â'r cais am oddefeb yn ymwneud â Gwasanaethau Llyfrgell, fel y'i ceir o fewn y cais ail-lunio ar yr agenda, y caiff y mater ei ystyried i'w benderfynu mewn cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol yn dilyn cyflwyno cais manylach, os bydd y Cynghorydd Cowpe am wneud hynny.

(3) Rhoi gwybod i'r Cynghorydd Driscoll, mewn perthynas â'i gais am oddefeb, o ystyried hyd Heol Holltwn, y dylai gael cyngor gan y Swyddog Monitro os yw'n credu nad oes ganddo fuddiant personol na niweidiol mewn materion sy'n effeithio ar ben uchaf Heol Holltwn ac nad oes ganddynt unrhyw berthnasedd i'w fusnes neu ei eiddo.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhwymedigaethau ar gyfer rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio.

(2) Caniatáu cyflwyno cais manylach i'w ystyried.

(3) O ystyried hyd Heol Holltwn ac agosrwydd at eiddo'r Cynghorydd Driscoll.